



Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

29.11.24

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
Dear Parent / Guardian,

Mae wythnos arall wedi gwibio heibio! Ymarfer y sioe Nadolig oedd prif weithgarwch yr adran dan 7 tra bod blwyddyn 3 wedi bod yn ysgrifennu adroddiadau ffeithiol am ddraenogod, blwyddyn 4 wedi bod yn ysgrifennu dadl am ddatgoedwigo, blwyddyn 5 wedi mwynhau datrys problemau a blwyddyn 6 yn mwynhau gweithdy Agorwch eich Llygaid i ddysgu am y diwydiant ffilm a theledu.

Another week has flown by! The Christmas show has been the main activity for our under 7 pupils whilst year 3 have been writing non-chronological reports about hedgehogs, year 5 have been writing a debate about deforestation, year 5 have enjoyed problem solving whilst year 6 enjoyed a workshop about the film and TV industry.

Croeso'n ôl Mrs Lewis

Braf iawn oedd croesawu Mrs Lewis yn ôl o gyfnod mamolaeth yr wythnos hon. Bydd Mrs Lewis yn ymuno gyda thîm addysgu blwyddyn 5 a 6.

Trist iawn oedd ffarwelio gyda Mrs Davies wedi cyfnod o dros flwyddyn. Diolchwn iddi am ei holl waith wrth addysgu gwyddoniaeth a datblygu ein profiadau o Amrywiaeth. Dymunwn yn dda iddi ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu yn ôl yn achlysurol.

It was wonderful to welcome Mrs Lewis back from her maternity leave. She will now join the team in year 5 and 6. We were sad to say goodbye to Mrs Davies who has worked with us for the last year. We would like to thank her for all her work around teaching Science and developing our Diversity provision. We wish her all the best and look forward to welcoming her back every now and then to the school.

Noson GRhA / PTA Evening

Roedd y neuadd yn llawn bwrlwm nos lau ac roedd arogleuon bendigedig yn llenwi'r lle wrth i griw o gymuned yr ysgol fanteisio ar gyfle i greu torchau Nadolig. Roedd pob un yn unigryw ac yn hollol fendigedig. Diolch i Blodau Tlws am arwain y criw a diolch i bawb am gefnogi.



The hall was full of excitement and wonderful smells on Thursday evening as members of Ysgol Pencae's community came to enjoy a workshop with Blodau Tlws and created lovely wreaths. Diolch to all who supported.



Blwyddyn 6: Crucial Crew a Cwis Dim Clem

Aeth Blwyddyn 6 i weithdai Crucial Crew yr wythnos hon er mwyn dysgu am ddiogelwch. Dysgon nhw am ddiogelwch nwyon, ar y rheiffordd, tân a diogelwch dŵr gyda'r RNLI. Maen nhw hefyd wedi cystadlu yn cwis Mentrau Iaith, Cwis Dim Clem. Llongyfarchiadau i'r tim buddugol a fydd yn cynrychioli Caerdydd yn y rownd rhanbarthol.

Year 6 went to Crucial Crew workshops this week where they learnt about safety in various situations. They learnt about gas safety, railway safety, fire safety and water safety with the RNLI. They've also competed in the Mentrau Iaith quiz, Cwis Dim Clem. Congratulations to the winning team who will represent Cardiff in the regional round.

Blwyddyn 3: Trip Sinema / Cinema Trip

Aeth Blwyddyn 3 i'r sinema fel rhan o weithgarwch Gŵyl Into Film i wyllo, The Jungle Bunch 2. Cafon nhw amser arbennig.

Year 3 went to the cinema as part of the Into Film Festival to watch the fim, The Jungle Bunch 2. They had an excellent time.

Gweithdy Minecraft Workshop

Diolch i Brifysgol Caerdydd am ddod i gynnal gweithdy Minecraft gyda dosbarthiadau blwyddyn 3, 4, 5 a 6, ynghyd â hyfforddiant i'r staff. Roedd y disgyblion yn ardderchog a'r athrawon yn barod i fentro! Edrychwn ymlaen at ddefnyddio ein sgiliau newydd fel rhan o'n haddysgeg!

Diolch to Cardiff University students who came to hold Minecraft workshops with years 3, 4, 5 and 6 and an inset session for the teachers. The pupils were confident and excellent and the staff showed great perseverance! We no look forward to using the application as part of our pedagogy.

Clybiau / Clubs

| | Dydd Llun Monday | Dydd Mercher Wednesday | Dydd Iau Thursday | Dydd Gwener Friday |
|----------------------|-----------------------------|-----------------------------------|------------------------------|-------------------------------|
| 12.45 - 13.15 | | | | <u>BI3-6</u> |



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



ysgolpencae



www.ysgolpencae.cymru





02920 563 851

| | | | | |
|--------------------|--|----------|---|---|
| | | | | Clwb Chwaraeon Urdd Urdd Sports Club archebu lle / book a place |
| 3.30 - 4.30 | Clwb Canu (singing) Clwb Pêl-rwyd (netball) | Dancefit | Code Club Aelodau yn unig / members only 3.30 - 4.30 Pêl-droed / Rygbi Football / Rugby | |

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend,*

Siwan Dafydd

| Mis Tachwedd Sialens Siarter Iaith y Teulu <i>Language Charter Family Target</i> | Mis Tachwedd Proc i'r Cof Diogelwch ar y We <i>Internet Safety Tip</i> | Mis Tachwedd Hawliau Plant <i>Children's Rights</i> |
|---|---|---|
| Beth am ddweud diolch yn Gymraeg bob tro. <i>How about using Diolch (thank you) in Welsh everytime you shop.</i> | Mae Kiddle yn borwr gwe fwy diogel i blant. <i>Kiddle is a safer web browser for children.</i> | Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel. <i>You should not be harmed and should be looked after and kept safe.</i> |
|  |  | |

Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:



Swyddogion Diogelu yr Ysgol / Safeguarding Designated Teachers: Siwan Dafydd ac Aled Thomas
Llywodraethwr Diogelu / Safeguarding Governor: Emma Simpkins
[Gwybodaeth Diogelu / Safeguarding Information](#)

[Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form](#)

[Ffurflen Gwyliau / Holiday Form](#)



[Gwaith cartref / Home Work](#)

bit.ly/gwaithcartrefPC

DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY

Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser
Here are key dates and more information will be shared nearer the time

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|--------------------|--|
| 3.12.24 5.12.24 | Derbyn, Blwyddyn 1 a 2: Sioe Nadolig yr adran Dysgu Sylfaen Reception, year 1 and 2: Foundation Learning Christmas Show |
| 5.12.24 | Stondin Gacennau B16 ar yr iard - dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6. YR6 Cake stall on the yard - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party. |
| 6.12.24 | Dros 7: ymarfer Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan Over 7's: Christmas Service Practice at the Cathedral |
| 10.12.24 | Bl1 a 2: Mynd i'r Sherman: Yr Hugain Fach Goch Going to the theatre: Little Red Riding Hood |
| 11.12.24 | CINIO NADOLIG / CHRISTMAS DINNER |
| 13.12.24 | Ffair Nadolig / Christmas Fair <i>Ar dir yr ysgol yn syth ar ôl ysgol / On School grounds straight after school</i> |
| 17.12.24 | Derbyn a Bl1: Trip i sioe Cyw Reception and Year 1: Trip to Cyw Christmas Show |
| 18.12.24 | Bl3-6: Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan 9.30yb Cathedral Christmas Service - 9.30am |
| 20.12.24 | Diwrnod Olaf tymor yr Hydref / Last Day of Autumn Term 23.12.24 - 6.1.25: Gwyliau Nadolig / Christmas Holiday |
| 6.1.25 | Diwrnod HMS / Inset Day |



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



[ysgolpencae](#)



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851

| | |
|-------------------|---|
| 7.1.25 | Disgyblion nôl yn yr ysgol Pupils back in school |
| 3.2.25 | Diwrnod HMS / Inset Day |
| 24.2.25 - 28.2.25 | Hanner Tymor / Half Term |
| 17.3.25 - 21.3.24 | BI5: Gwersi Seiclo Cycling Lessons |
| 9.4.25 - 11.4.25 | BI4: Maes y Fron Call of the Wild |
| 11.4.24 | Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term 14.4.25 - 25.4.25: Gwyliau Pasg / Easter Holiday |
| 26.5.25 - 30.5.25 | Hanner Tymor / Half Term |
| 2.6.24 - 3.6.24 | BI3: Pentre Ifan a Chastell Henllys Pentre Ifan and Castell Henllys |
| 9.6.25 - 20.6.25 | BI3: Gwersi Nofio <i>Swimming Lessons</i> |
| 18.7.25 | Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term 2.30pm: Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly |
| 21.7.25 | Diwrnod HMS / Inset Day |

